



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

# ACADEMI GYLLID

[Click here for  
English Version](#)



## CYNLLUN RHEOLI ARIANNOL I RADDEDIGION

Proffiliau

## Proffil Llwyddiant Cynllun Rheoli Ariannol i Raddedigion GIG Cymru

Bydd y rhaglen yn helpu i **ddatblygu arweinwyr cyllid** sy'n barod ac yn fodlon i gwrdd â heriau busnes heddiw ac yn y dyfodol ac sy'n gallu creu'r diwylliant sydd ei angen i alluogi ein sefydliadau i ffynnu. Mae'r **proffil llwyddiant** yn seiliedig ar y **saith ymddygiad** sy'n sail i gefnogi ac arwain gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac sy'n sail i'n **hasesiad** a'n **datblygiad**.

Mae Proffiliau Llwyddiant yn cymryd golwg gyfannol o ddarpar ymgeiswyr gan asesu **ymddygiadau**, **cryfderau** a **galluoedd**. Mae hyn yn ein cefnogi i ragfynegi beth allai eich perfformiad yn y rôl fod drwy'r gwahanol gamau recriwtio i gael darlun cywir o'ch addasrwydd ar gyfer y rôl.

Byddwn yn defnyddio **Proffiliau Llwyddiant** i asesu eich cais



**Ymddygiadau** - Gellir mesur ac arsylwi ar ymddygiadau a gallant ein helpu i ragweld sut y byddwch yn perfformio yn ein rôl i raddedigion



**Cryfderau** - Gallwn ddarganfod a ydych chi a'n cynllun graddedigion a'n sefydliadau yn addas trwy edrych ar eich cryfderau



**Gallu** -Bydd asesu eich gallu yn ein helpu i ddeall eich perfformiad posibl yn y dyfodol ac addasrwydd ar gyfer y math o waith y gallech ymgymryd fel myfyriwr graddedig dan hyfforddiant rheolaeth ariannol yn GIG Cymru

Mae **saith maes allweddol** y byddwn yn eu hasesu:

- 1**      **Dysgu a Hunanymwybyddiaeth**
- 2**      **Ysgogiad a Gwynwch**
- 3**      **Hyrwyddo Arloesedd a Chynaliadwyedd**
- 4**      **Meithrin Cydweithrediad a Phartneriaeth**
- 5**      **Dylanwadu ac Effaith Personol**
- 6**      **Cyfeiriadedd Strategol**
- 7**      **Arweinyddiaeth ar y Cyd a Thosturiol**

## Ymddygiadau

Yn dibynnu ar y math o asesiad, er enghraifft ar y ffurflen gais neu mewn cyfweiliad, efallai y gofynnir i chi ddarparu enghreifftiau o achosion pan fyddwch wedi dangos ymddygiad. Gall hyn fod yn y gwaith neu yn rhywle arall megis yn ystod profiad gwaith, gwaith grŵp yn y brifysgol, gwirfoddoli neu mewn cysylltiad â hobi.

Fel arall, efallai y gofynnir i chi sut y byddech yn ymddwyn mewn sefyllfa benodol, er enghraifft gan ddefnyddio prawf Penderfyniadau Sefyllfaol. Efallai y gofynnir i chi hefyd ddangos ymddygiadau mewn amser real, er enghraifft mewn asesiad ymddygiadol strwythuredig.

## Cryfderau

Cryfderau yw'r pethau rydyn ni'n eu gwneud yn dda, yn eu gwneud yn rheolaidd ac sy'n ein hysgogi. Drwy archwilio eich cryfderau bydd hyn yn eich helpu chi a ni i ddeall a yw'r sefydliad a'r swydd yn gweddu i chi ac a ydych yn debygol o fwynhau'r swydd a pherfformio'n dda.

Mae nifer o gryfderau perthnasol yn y proffil, ond nid ydym yn disgwyl i chi feddu ar bob un ohonynt a bydd llawer yn datblygu yn ystod y rhaglen. Gallwn fesur cryfderau trwy gyfweiliadau, proffiliau personoliaeth a thrwy ymarferion strwythuredig.

## Gallu

Bydd asesu eich gallu yn ein helpu i ddeall eich perfformiad posibl yn y dyfodol a'ch addasrwydd ar gyfer y math o waith y gallech ei wneud.

Fel ymgeisydd ar gyfer ein rhaglen i raddedigion, efallai bydd eich profiad gwaith yn gyfyngedig, ond byddwn yn chwilio am enghreifftiau o bethau rydych wedi'u cyflawni o'r blaen, gan gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o GIG Cymru a'r disgwyliadau o weithio yn yr amgylchedd hwn.

Caiff gallu ei fesur fel arfer trwy brofion gwybyddol megis rhesymu rhifiadol a geiriol neu farn sefyllfaol.

## Meysydd Proffil Llwyddiant Cynllun Rheoli Ariannol GIG Cymru

### Dysgu a Hunanymwybyddiaeth

Mae hyn yn ymwneud â meddu ar yr hunanymwybyddiaeth, y gallu a'r parodrwydd i nodi'n wrthrychol ac yn gywir eich cryfderau eich hun o ran sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau yn ogystal â deall a bod yn onest am eich meysydd i'w datblygu.

Byddwch yn agored i adborth a dysgu o gamgymeriadau a byddwch yn defnyddio'r mewnwelediadau hyn i fynd ati i gynllunio a chwilio am gyfleoedd i wella a thyfu'n barhaus.

Rydych yn adnabod y sefyllfaoedd a all achosi i chi deimlo dan bwysau, dicter neu rwystredigaeth ac rydych wedi datblygu ffyrdd o reoli eich ymatebion ac ymateb mewn ffordd gadarnhaol.

### Ymddygiadau

Tystiolaeth o hunanymwybyddiaeth o'ch cryfderau a'ch anghenion datblygu eich hun.

Yn gwneud asesiad cywir a gwrthrychol o'ch perfformiad eich hun a sut y gellid ei wella).

Yn agored i roi a derbyn adborth a gweithredu arno i wella eich perfformiad eich hun.

Blaenoriaethu datblygiad eich hun, gan gydnabod yr angen am ddysgu parhaus, ehangu eich set sgiliau, a gweithredu fel model rôl wrth wneud hyn.

Yn dangos chwilfrydedd proffesiynol, yn gofyn cwestiynau ac yn ceisio gwybodaeth.

Yn fodlon datgelu i eraill sut ydych chi'n teimlo pan nad yw tasg neu sefyllfa'n mynd rhagddo'n ôl y bwriad.

### Cryfderau Perthnasol

#### Emosiynol Ddeallus

Rydych chi'n cael mewnwelediad o'ch emosiynau eich hun ac emosiynau pobl eraill i ddangos empathi.

#### Diffuant

Rydych chi'n hunanymwybodol ac yn driw i chi'ch hun ym mhob sefyllfa, hyd yn oed pan fyddwch dan bwysau.

#### Dysgwr

Rydych chi'n chwilfrydig, rydych chi'n chwilio am wybodaeth newydd ac yn chwilio am ffyrdd newydd o ddatblygu'ch hun ac eraill.

## Ysgogiad a Gwytnwch

Mae hyn yn ymwneud â gallu canolbwyntio ar y pwrpas neu'r nod cyffredinol ac nid tasg benodol yn unig. Rydych yn gallu blaenoriaethu, gosod nodau clir a nodi'r adnoddau sydd eu hangen arnoch a sut y byddwch yn asesu cynnydd.

Mae gennych yr awydd a'r penderfyniad i gyflawni canlyniadau er gwaethaf yr anawsterau a all ddigwydd. Rydych yn rhagweithiol wrth ddod o hyd i atebion i fynd i'r afael â materion neu broblemau sy'n codi.

Rydych chi'n defnyddio'ch crebwyll i wneud penderfyniadau, os ydyn nhw'n amhoblogaidd, ac rydych chi'n gwybod pan fydd angen uwchgyfeirio materion.

### Ymddygiadau

Yn dangos agwedd gallu gwneud a pharodrwydd i ysgwyddo cyfrifoldebau a heriau ac yn annog eraill i wneud hynny.

Pwrpasol - cadw ffocws eich hun a chydweithwyr trwy gynnig sut i gynllunio a threfnu tasgau.

Aros yn ddigynnwrf ac yn gadarnhaol wrth wynebu gwrthwynebiad neu broblemau.

Gallu parhau i ganolbwyntio yn wyneb newid, ond eto'n hyblyg wrth addasu dulliau neu amserlenni wrth i flaenoriaethau newid.

Rhannu eich dysgu ac adeiladu ar awgrymiadau eraill i ddod o hyd i atebion ymarferol i heriau.

Dewr, yn barod i gynnig neu wneud penderfyniadau i symud pethau ymlaen, hyd yn oed os ydynt yn amhoblogaidd.

### Cryfderau Perthnasol

#### Gwydn

Mae gennych chi dawelwch mewnol. Byddwch chi'n dod at eich hun yn gyflym ar ôl rhwystrau ac yn dysgu ohonynt, gan ymdrechu i gyflawni canlyniadau o ansawdd a rhagoriaeth ym mhopeth a wnewch.

#### Dewr

Rydych chi'n arloeswr sy'n rhoi cynnig ar ddulliau newydd ac yn gwthio'ch hun i weithio y tu allan i'ch parth cysurus.

#### Yn benderfynol

Byddwch yn defnyddio eich crebwyll ac yn cymryd agwedd ystyriol at sefyllfaoedd a thasgau wrth wneud penderfyniadau.

## Hyrwyddo Arloesedd a Chynaliadwyedd

Mae hyn yn ymwneud â gweithio gydag eraill i ddeall sut mae argymhellion ar gyfer ffyrdd newydd ac arloesol o wneud pethau yn effeithio'n gadarnhaol ar wella gwasanaethau.

Byddwch yn dangos agwedd gadarnhaol ac agored at newidiadau posibl, gan weithredu fel model rôl i helpu pobl i addasu i newid. Byddwch yn helpu i greu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel i rannu syniadau a chysyniadau newydd a nodi cyfleoedd i wella.

Rydych chi'n gallu herio ffyrdd presennol o wneud pethau'n adeiladol, gan ddefnyddio gwybodaeth berthnasol, resymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu syniadau gwella.

### Ymddygiadau

Yn egluro pwysigrwydd sut y gall symleiddio proses, effeithlonrwydd a defnydd effeithiol o adnoddau fod o fudd i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Yn agored i syniadau, cysyniadau, dulliau a thechnolegau newydd, heb lynu wrth y rhai profedig.

Mynd ati i herio dulliau presennol a doethineb confensiynol, gan gynnig dewisiadau amgen.

Gweithredu fel model rôl i alluogi ac annog eraill i gwestiynu'r sefyllfa bresennol a chynnig syniadau a/neu gwestiynu penderfyniadau.

Yn hyrwyddo newidiadau a gwelliannau perthnasol, rhesymegol ac yn seiliedig ar dystiolaeth (nid newid er mwyn newid).

### Cryfderau Perthnasol

#### **Gwellhâwr**

Rydych chi'n chwilio am ffyrdd gwell o wneud pethau ac yn mwynhau meddwl am syniadau newydd a gwreiddiol. Cymryd agwedd gadarnhaol at fynd i'r afael â phroblemau a dod o hyd i ffyrdd o nodi atebion addas.

#### **Heriwr**

Gallwch ddod â phersbectif ffres beth bynnag fo'r sefyllfa neu'r cyd-destun. Rydych chi'n gweld barn pobl eraill ac yn gallu gwerthfawrogi bod yna lawer o wahanol onglau i'w hystyried.

#### **Addasadwy**

Gallwch addasu i amrywiadau mewn gwaith neu amgylcheddau ac nid yw newid yn effeithio ar eich effeithiolrwydd. Rydych yn hyblyg ac yn amryddawn ac yn gweithredu fel eiriolwr dros newid.

## Meithrin Cydweithrediad a Phartneriaeth

Mae hyn yn ymwneud â deall pwysigrwydd nodi rhanddeiliaid, cydweithio ac ymgynghori â nhw mewn modd cynhwysol wrth osod pwrpas clir ac ystyried yr ystod amrywiol o ddiddordebau.

Byddwch yn cyfathrebu'n barchus ac yn dangos diddordeb gwirioneddol wrth wrando, gan werthfawrogi gwahanol syniadau a ffyrdd o weithio. Byddwch yn gallu addasu eich arddull a thrin safbwyntiau croes pan fyddant yn codi.

Byddwch yn rhwydweithio ac yn meithrin perthnasoedd, gan gydnabod bod ymgysylltu proffesiynol a chadarnhaol yn helpu i nodi cyfleoedd i gydweithio a rhannu gwybodaeth, dealltwriaeth a dysgu.

### Ymddygiadau

Chwaraewr tîm da yn gwneud yr hyn sy'n iawn i'r tîm nid i chi'ch hun yn unig.

Yn ceisio egluro pwrpas/nod a rennir neu dir cyffredin tra'n cydnabod y gwahanol agendâu.

Yn barod i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth, ac yn annog eraill i wneud hynny hefyd.

Ymagwedd gynhwysol, gan sicrhau bod pawb yn cael eu clywed a bod safbwyntiau gwahanol yn cael eu parchu - gwneud i bawb deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Yn cychwyn cyswllt a pherthnasoedd, yn datblygu rhwydweithiau, gan ddangos awydd i gydweithio a chyfrannu ag eraill.

Yn meithrin cydberthynas drwy geisio deall materion pobl eraill a chydweithio i ganfod ateb i bawb (creu ymddiriedaeth a hyder).

### Cryfderau Perthnasol

#### Adeiladwr Perthynas

Rydych yn mynd ati'n rhagweithiol i greu a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol a phroffesiynol gydag ystod eang o randdeiliaid, gan nodi cysylltiadau a dod â phobl ynghyd i feithrin parch ac ymddiriedaeth.

#### Gweithio'n dda mewn tîm

Rydych chi'n gweithio'n dda fel rhan o dîm a gallwch reoli deinameg tîm yn effeithiol i yrru nod cyffredin yn ei flaen. Rydych chi'n ystyried anghenion pawb ac yn creu ysbryd tîm gwirioneddol.

#### Cyfyngwr

Rydych yn darparu sefydlogrwydd a chydlynid o fewn timau, gan ddod o hyd i dir a phwrpas cyffredin trwy annog deialogau o fewn timau a rhyngddynt. Rydych chi'n mwynhau cydweithio ag eraill i hyrwyddo nod a rennir.

## Dylanwadu ac Effaith

Mae hyn yn ymwneud â chyfathrebu mewn modd clir, adeiladol, ystyriol a deniadol, sy'n cyfleu eich meddyliau, eich syniadau a'ch rhesymeg mewn ffordd a all berswadio neu ddylanwadu ar eraill.

Rydych chi'n gallu adnabod eich anghenion a'ch emosiynau eich hun ac eraill ac addasu eich ffordd o feddwl ac ymddygiad i weddu i'r grwpiau rhanddeiliaid amrywiol. Rydych chi'n cymryd amser i ystyried y dulliau gorau o gyfathrebu.

Byddwch yn dangos y gallu i weld pethau o safbwyntiau pobl eraill a chynnwys eraill yn eich penderfyniadau er mwyn meithrin ymgysylltiad ac ymddiriedaeth. Mae hyn yn eich galluogi i gyflwyno argymhellion cadarn, gan negodi i ddod i gytundebau addas ar gyfer pob parti.

### Ymddygiadau

Yn cyfathrebu'n gadarnhaol, yn glir, yn gryno ac yn barchus mewn ffordd y gall pobl ei deall ac uniaethu â hi.

Yn cydnabod effaith eu hymddygiad ar eraill ac yn addasu eu hymatebion a'u harddull fel y bo'n briodol.

Yn llwyddo i ddarbwylllo ac ennill ymrwymiad gan eraill, gan gydbwysu dadleuon rhesymegol ac emosiynol.

Yn dangos cyfuniad effeithiol o sensitifrwydd a phenderfyniad wrth drafod, yn barod i wthio yn ôl ac yn gweithio i ddatrys gwrthdaro.

Yn gweithredu fel 'ffrind beirniadol', yn gallu herio'n braf mewn ffordd bwyllog a sicr.

Yn effeithiol wrth fynegi barn mewn grwpiau mawr a thrafodaethau, gyda phresenoldeb ond ddim yn tra-arglwyddiaethu.

### Cryfderau Perthnasol

#### **Dylanwadwr**

Rydych yn dylanwadu ar eraill, yn mynegi'r rhesymeg i ddod i gytundeb trwy gyfleu meddyliau a syniadau, ar lafar neu'n ysgrifenedig. Rydych chi'n symleiddio cymhlethdod ac yn addasu cyfathrebu fel y gall eraill ddeall.

#### **Negodwr**

Rydych yn hwyluso trafodaethau adeiladol ac yn mwynhau cael pawb i ddod i gytundeb.

#### **Ysgogydd**

Rydych chi'n llawn cymhelliant ac yn ysbrydoli eraill i symud pethau ymlaen a gwneud i bethau ddigwydd.

## Cyfeiriadedd Strategol

Mae hyn yn ymwneud â chael dealltwriaeth glir o'r ysgogwyr strategol ar gyfer eich maes gwaith a sut mae strategaethau a gweithgareddau eich swyddogaeth yn creu gwerth i'r sefydliad a'i randdeiliaid. Byddwch yn awyddus i ddatblygu gwybodaeth ym mhob maes sy'n gysylltiedig â'ch gwaith

Bydd gennych ddealltwriaeth eang o wasanaethau cyhoeddus, yn awyddus i wybod mwy a bod yn ymwybodol o faterion a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar eich gwaith gan gynnwys ymwybyddiaeth o bwysau allanol, ac unrhyw risgiau perthnasol a allai effeithio ar eich penderfyniadau.

### Ymddygiadau

Yn deall ac yn gallu mynegi sut mae eich gweithgaredd yn cyd-fynd â blaenoriaethau ehangach y sefydliad ac yn cyfrannu atynt.

Defnyddio dulliau dadansoddol cryf i weithio trwy a gwerthuso effeithiau posibl ffactorau amrywiol e.e. cymdeithasol, amgylcheddol, gwleidyddol ac economaidd.

Mynd ati i sganio'r gorwel am faterion, tueddiadau a datblygiadau a allai gael goblygiadau ac effaith ar wasanaethau.

Creu gweledigaeth a chynlluniau gydag eraill gan sicrhau eu bod ill dau yn glir ond yn gallu addasu i amgylchiadau newidiol.

Trosi strategaeth/blaenoriaeth yn gynllun gyda cherrig milltir a chymau ymarferol.

### Cryfderau Perthnasol

#### **Gweledigaethol**

Rydych chi'n creu ac yn rhannu gweledigaeth glir o'r dyfodol, gan allu ei chyfleu'n glir ac yn gryno i ystod eang o randdeiliaid.

#### **Strategol**

Rydych yn edrych ar y darlun mawr ac yn ystyried y ffactorau ehangach a goblygiadau hirdymor penderfyniadau.

#### **Dadansoddol**

Rydych yn ceisio ac yn dadansoddi gwybodaeth i lywio penderfyniadau ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael.

## Arweinyddiaeth ar y Cyd a Thosturiol

Mae hyn yn ymwneud â deall gwahanol arddulliau arwain a sut maent yn cynyddu grymuso ac ymddiriedaeth. Byddwch yn deall sut i greu amgylchedd gwaith cadarnhaol, gan geisio deall cymhellion eraill, meithrin perthnasoedd, a galluogi pobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a bod rhywun yn poeni amdanynt.

Rydych yn annog capasiti tîm ac nid capasiti unigol yn unig wrth ddatblygu pobl a thimau. Rydych yn mynd i'r afael â materion perfformiad yn brydlon ac yn annog dysgu o gamgymeriadau. Byddwch yn cynorthwyo cydweithrediad a chyd-gynhyrchu o fewn timau a rhyngddynt i rannu arfer gorau a gwersi a ddysgwyd.

Meddu ar ymwybyddiaeth o werthoedd sefydliadol. Byddwch yn fodel rôl i eraill ac yn gallu mynegi cysylltiadau ag ymddygiadau personol.

### Ymddygiadau

Grymuso eraill i ddefnyddio menter a chymryd cyfrifoldeb.

Gofyn cwestiynau i ddeall cryfderau a chymhellion eich tîm/eraill.

Yn rhoi adborth clir a gonest i gefnogi datblygiad. Yn gwahodd adborth yn gyfnewid.

Yn buddsoddi amser yn cefnogi ac yn hyfforddi eraill, yn gwybod pryd i ddefnyddio empathi i gynnig cefnogaeth a phryd i gamu'n ôl.

Yn barod i herio ymddygiad amhriodol neu ddi-fudd.

Mynd i'r afael â pherfformiad gwael yn brydlon, yn gadarn ac yn adeiladol, gan drin camgymeriadau fel cyfleoedd dysgu.

Yn greu amgylchedd cadarnhaol, dathlu llwyddiant a gwella morâl pobl eraill e.e. adeiladu ar bwyntiau pobl eraill gan roi cydnabyddiaeth. Yn defnyddio hiwmor priodol i greu perthynas a naws gadarnhaol.

### Cryfderau Perthnasol

#### Galluogwr

Rydych chi'n gweld y potensial ym mhob un ac yn eu hannog i ddysgu, symud ymlaen a datblygu.

#### Cynhwysol

Rydych chi'n cydnabod pawb fel unigolyn, yn derbyn pobl am bwy ydyn nhw ac yn trin pawb yn deg. Annog a darparu cyfleoedd i eraill rannu syniadau a chyfrannu.

#### Model Rôl

Rydych yn gosod esiampl gadarnhaol, gan ymgorffori Egwyddorion Craidd GIG Cymru drwy fod yn dosturiol drwy drafodaethau dilys a chynhwysol, gan werthfawrogi pob safbwynt er mwyn ei ddeall cyn ymateb neu wneud penderfyniadau.



Eisiau gwybod mwy am ein cyfleoedd i raddedigion? Sganiwch y cod QR neu ewch i <https://academigyllid.gig.cymru/gyrfaoedd-cyllid-yn-gig-cymru/>



# CYSYLLTWCH

E-bost: [finance.academy@wales.nhs.uk](mailto:finance.academy@wales.nhs.uk)





GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

# FINANCE ACADEMY

[Cliciwch yma am  
fersiwn Gymraeg](#)



## FINANCIAL MANAGEMENT GRADUATE SCHEME

Success Profiles

## NHS Wales Financial Management Graduate Scheme Success Profile

The programme will help to **develop finance leaders** who are ready and willing to meet current and future business challenges and who are able to create the culture required to enable our organisations to flourish. The **success profile** is based on the **seven behaviours** which underpin supporting and leading in the Welsh public service and which form the basis for our **assessment** and **development**.

Success Profiles take a holistic view of potential candidates assessing **behaviours**, **strengths** and **abilities**. This supports us in predicting what your performance in the role could be through the various recruitment stages to get an accurate view of your suitability for the role.

**We will use Success Profiles to assess your application.**



**Behaviours** - Can be measured and observed and can help us predict what your performance in our graduate role could be



**Strengths** - We can find out if you and our graduate scheme and organisations are a good fit by looking at your strengths



**Ability** - Assessing your ability will help us understand your potential future performance and suitability for the type of work you might undertake as a financial management trainee in NHS Wales

There are **seven key areas** we will assess:

- 1** Learning and Self-Awareness
- 2** Drive and Resilience
- 3** Championing Innovation and Sustainability
- 4** Building Collaboration and Partnership
- 5** Influencing and Personal Impact
- 6** Strategic Orientation
- 7** Collective and Compassionate Leadership

## Behaviours

Depending on the type of assessment, for example in the application form or interview, you may be asked to provide examples of when you have demonstrated a behaviour. This may be at work or somewhere else such as work experience, group work at university, volunteering or in connection with a hobby.

Alternatively, you may be asked how you would behave in a given situation, for example using a Situation Judgement test. You may also be asked to demonstrate behaviours in real time, for example in a structured behavioural assessment.

## Strengths

Strengths are the things we do well, do regularly and that motivate us. By exploring your strengths this will help both you and us to understand whether the organisation and job are a good fit and that you are likely to enjoy the role and perform well.

There are a number of relevant strengths in the profile, but we do not expect you to have them all and many will develop over the course of the programme. We can measure strengths through interviews, personality profiles and through structured exercises.

## Ability

Assessing your ability will help us to understand your potential future performance and suitability for the type of work you may undertake.

As an applicant for our graduate programme, you may have limited work experience, but we will be looking for examples of things you have previously achieved, including knowledge and understanding of NHS Wales and the expectations of working in this environment.

Ability is usually measured through cognitive tests such as numerical and verbal reasoning or situational judgment.

## NHS Wales Financial Management Graduate Scheme Success Profile Areas

### Learning and Self Awareness

This is about having self-awareness, ability and preparedness to objectively and accurately identify your own strengths in terms of skills, knowledge and behaviours as well as understanding and being honest about your areas for development.

You will be open to feedback and learning from mistakes and will use these insights to actively plan and seek opportunities to continually improve and grow.

You recognise the situations that may cause you pressure, irritation or frustration and have developed ways to manage your reactions and respond in a positive way.

### Behaviours

Evidences self-awareness of their own strengths and development needs.

Makes accurate and objective assessment of own performance and how they could improve).

Open to giving and receiving feedback and acting on it to improve their own performance.

Prioritises own development, recognising the need for continuous learning, widening their skills set, and acting as a role model in pursuing this.

Demonstrates a professional curiosity, asks questions and seeks information.

Is willing to disclose to others about how they are feeling when a task or situation is not quite going to plan.

### Relevant Strengths

#### **Emotionally Intelligent**

You draw insight from your own emotions and those of others to demonstrate empathy.

#### **Authentic**

You are self-aware and true to yourself in all situations, even when under pressure.

#### **Learner**

You are inquisitive, you seek out new information and look for new ways to develop yourself and others.

## Drive and Resilience

This is about being able to focus on the overall purpose or goal and not just a specific task. You are able to prioritise, set clear goals and can identify the resources you need and how you will assess progress.

You have the drive and determination to deliver outcomes despite setback that may occur. You are proactive in finding solutions to tackle issues or problems that arise.

You use your judgement to make decisions, if they are unpopular, and you know when issues require escalation.

### Behaviours

Shows a can do approach and willingness to take on responsibilities and challenges and encourages others to do so.

Purposeful - keeps self and colleagues focused by proposing how to plan and organise tasks.

Remains composed and positive when faced with opposition or problems.

Able to remain focused in the face of change, yet flexible in adapting approaches or timescales as priorities shift.

Shares their learning and builds on others suggestions to find practical solutions to challenges.

Courageous, prepared to propose or take decisions to move things forward, even if they are unpopular.

### Relevant Strengths

#### **Resilient**

You have inner composure, recover quickly from setbacks and learn from them, striving to achieve quality outcomes and excellence in everything you do.

#### **Courageous**

You are an innovator who tries new approaches and pushes yourself to work outside your comfort zone.

#### **Decisive**

You use your judgement and take a considered approach to situations and tasks when making decisions.

## Championing Innovation and Sustainability

This is about working with others to understand how recommendations for new and innovative ways of doing things positively impacts service improvement.

You will demonstrate a positive and open approach to potential changes, acting as a role model to help people adapt and adopt to change. You will help create an environment where people feel safe to share new ideas and concepts and identify opportunities for improvement.

You are able to constructively challenge existing ways of doing things, using relevant, logical and evidence-based information to progress improvement ideas.

### Behaviours

Explains the importance of how simplifying process, efficiency and effective use of resources can benefit service users.

Open to new ideas, concepts, methods and technologies, not sticking with the tried and true.

Actively challenges existing approaches and conventional wisdom, proposing alternatives.

Acts as a role model to enable and encourage others question the status quo and to propose ideas and/or question decisions.

Champions relevant, logical and evidence-based changes and improvements (not change for change's sake).

### Relevant Strengths

#### **Improver**

You look for better ways of doing things and enjoy coming up with new and original ideas. Taking a positive approach to tackling problems and find ways to identify suitable solutions.

#### **Challenger**

You can bring a fresh perspective whatever the situation or context. You see other people's views and can appreciate there are many different angles to consider.

#### **Adaptable**

You can adapt to variations in work or environments and your effectiveness isn't impacted by change. You are flexible and versatile and act as an advocate for change.

## Building Collaboration and Partnership

This is about understanding the importance of identifying stakeholders, collaborating and consulting with them in an inclusive manner whilst setting a clear purpose and considering the diverse range of interests.

You will communicate respectfully and show genuine interest when listening, valuing different ideas and ways of working. You will be able to adapt your style and handle conflicting views when they arise.

You will network and nurture relationships, recognising professional and positive engagement helps identify opportunities to collaborate and share knowledge, information and learning.

### Behaviours

A good team player doing what is right for the team not just for themselves.

Seeks to clarify purpose/shared goal or common ground whilst recognising the differing agendas.

Readily shares knowledge and information, and encourages others to do so too.

Inclusive approach, ensuring everyone is heard and different views are respected - making everyone feel valued.

Initiates contact and relationships, builds networks, demonstrating a keenness to collaborate and contribute with others.

Builds rapport by seeking to understand others' issues and working together to establish solution for all (generates trust and confidence).

### Relevant Strengths

#### Relationship Builder

You proactively create and maintain positive and professional working relationships with a wide range of stakeholders, identifying connections and bringing people together to develop mutual respect and trust.

#### Team

You work well as part of a team and can effectively manage team dynamics to drive forward a shared goal. You take into consideration everyone's individual needs and creates a genuine team spirit.

#### Mediator

You provide stability and cohesion within teams, finding common ground and purpose through encouraging dialogues within and between teams. You enjoy collaborating with others to drive forward a shared goal.

#### player

## Influencing and Impact

This is about communicating in a clear, constructive, considerate and engaging manner, which conveys your thoughts, ideas and rationale in a way that can persuade or influence others.

You are able to recognise own needs and emotions and those of others and adapt your thinking and behaviour to suit the various stakeholder groups. You take the time to consider best methods for communication.

You will demonstrate the ability to see things from others' perspectives and involve others in your decision making to build engagement and trust. This enables you to present robust recommendations, negotiating to reach suitable agreements for all parties.

### Behaviours

Communicates positively, clearly, concisely and respectfully in a way people can understand and relate to.

Recognises the impact of their behaviour on others and adapts their responses and style as appropriate.

Is successful in winning over and gaining commitment from others, balancing logical and emotional arguments.

Shows an effective blend of sensitivity and determination in negotiation, willing to push back and works to resolve conflict.

Acts as a 'critical friend', able to challenge nicely in a measured and assured way.

Effective in expressing their opinions in large groups and discussions, has presence without dominating.

### Relevant Strengths

#### **Influencer**

You influence others, articulate the rationale to gain agreement by communicating thoughts and ideas, verbally or in writing. You simplify complexity and adapt communication so others can understand.

#### **Negotiator**

You facilitate constructive discussions and enjoy getting all parties to reach an agreement.

#### **Motivator**

You are highly driven and inspire others to move things along and make things happen.

## Strategic Orientation

This is about having a clear understanding of the strategic drivers for your area of work and how the strategies and activities of your function create value for the organisation and its stakeholders. You to be keen to develop knowledge in all areas related to your work

You will have a broad understanding about public services, eager to know more and keep up to date and alert to emerging issues and trends which may affect your work including awareness of external pressures, and any relevant risks that could impact your decision making.

### Behaviours

Understands and can articulate how their activity aligns to and contributes to wider organisation priorities.

Uses strong analytical approaches to work through and evaluate the potential impacts of various factors e.g. social, environmental, political and economic.

Actively scans the horizon for issues, trends and developments that may have implications and an impact on services.

Creates vision and plans with others ensuring they are both clear but able to adapt to changing circumstance .

Translates a strategy/priority into an plan with milestones and practical steps.

### Relevant Strengths

#### **Visionary**

You create and share a clear vision of the future able to communicate it clearly and concisely to a wide range of stakeholders.

#### **Strategic**

You look at the big picture and consider the wider factors and long-term implications of decisions.

#### **Analytical**

You seek and analyse information to inform decisions based on the best available evidence.

## Collective and Compassionate Leadership

This is about understanding different leadership styles and how they increase empowerment and trust. You will understand how to create a positive working environment, seeking to understand the motivations of others, building relationships, enabling people to feel valued, respected and cared for.

You encourage team capacity and not just individual capacity when developing people and teams. You address performance issues promptly and encourage learning from mistakes. You will aid co-operation and co-production within and between teams to share best practice and lessons learned.

Having awareness of organisational values, you will be a role model for others and able to articulate links to personal behaviours.

### Behaviours

Empowering others to use initiative and take on responsibility.

Asks questions to understand the strengths and motivations of their team/others.

Gives clear and honest feedback to support development. Invites feedback in return.

Invests time supporting and coaching others, knows when to use empathy to offer support and when to step back.

Prepared to challenge unhelpful or inappropriate behaviour.

Addresses poor performance promptly, firmly and constructively, treating mistakes as learning opportunities.

Creates a positive environment, celebrating success and enhances the morale of others e.g. builds on others points giving recognition. Uses appropriate humour to create rapport and a positive mood.

### Relevant Strengths

#### Enabler

You see the potential in everybody and encourage them to learn, progress and develop.

#### Inclusive

You recognise everyone as an individual, accepting people for who they are and treating everyone fairly. Actively encourage and provide opportunities for others to share ideas and contribute.

#### Role

You set a positive example, embodying the core NHS Wales Principles by being compassionate through authentic and inclusive discussions, appreciating all points of view in order to understand before reacting or making decisions.

#### Model



Want to know more about our graduate opportunities? Scan the QR code or visit <https://financeacademy.nhs.wales/nhs-wales-finance-careers/>



Applications close **29 October 2025**

# CONTACT US

Email: [finance.academy@wales.nhs.uk](mailto:finance.academy@wales.nhs.uk)



